TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Cyfarfod o Fwrdd Trafnidiaeth Cymru – Cofnodion**

010:00 – 15:30; 19 Rhagfyr 2018

Tŷ South Gate, Caerdydd

---

**Yn bresennol:**
Nick Gregg (Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd) (NG) James Price (Prif Swyddog Gweithredol) (JP)
Sarah Howells (Cyfarwyddwr Anweithredol) (SH) Nikki Kemmery (Cyfarwyddwr Anweithredol) (NK)
Heather Clash (TrC) (HC) Jeremy Morgan (Ysgrifenyddiaeth) (JM)

Roedd y mynychwyr canlynol o Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn bresennol ar gyfer eitemau penodol o'r agenda: Geoff Ogden (GO); Alexia Course (AC); Karl Gilmore (KG); Gareth Morgan (GM)

**<u>Rhan A: Cyfarfod Llawn y Bwrdd</u>**

**1) Cyflwyniad ar Fysiau**

Ni allai Simon Jones (Llywodraeth Cymru) fynychu'r cyfarfod, felly cafodd yr eitem hon ei chanslo.

**2) Cyflwyniad**

**a. Ymddiheuriadau**

Croesawyd aelodau'r Bwrdd i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Cafwyd ymddiheuriadau gan Alison Noon-Jones (Cyfarwyddwr Anweithredol).

**b. Hysbysiad o Gworwm**

Gan fod cworwm yn bresennol, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi agor. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod pob Cyfarwyddwr wedi'i hysbysu am y cyfarfod.

**c. Gwrthdaro buddiannau**

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw wrthdaro buddiannau i'w datgan. Ni ddatganwyd unrhyw wrthdaro buddiannau newydd neu wedi'u diweddaru.

**d. Cofnodion a chamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol o Fwrdd TrC ar 21 Tachwedd 2018 yn gofnod gwir a chywir ac y byddent yn cael eu cyhoeddi ar wefan TrC.

Trafodwyd nifer o gamau gweithredu nad ydynt wedi'u rhoi ar waith:

- Cam Gweithredu 2 – Mae TrC yn aros i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad allweddol lefel uchel ar gyfer perfformiad TrC.

- Cam Gweithredu 12 - caiff y cam gweithredu ei gau pan gytunir ar Gylch Gorchwyl Pwyllgor y Bobl.
- Cam Gweithredu 20 – mae adroddiad interim ar broblemau gwasanaethau yn ystod Hydref 2018 wedi'i gynhyrchu, a chyflwynir adroddiad llawn yn un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol, cyn cau'r cam gweithredu.
- Cam Gweithredu 21 – bydd Llywodraeth Cymru a TrC yn trafod cau'r holl weithgarwch yn ymwneud â chaffael Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yn y cyfarfod nesaf o Fwrdd y Rhaglen.
- Cam Gweithredu 23 – newid y dyddiad ar gyfer mynegi 'gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid' i fis Chwefror 2019.

**3) Diogelwch**

**a. Rheoli diogelwch**

Ymunodd GM â'r cyfarfod a chyflwynodd fanylion digwyddiad GWR tua diwedd mis Tachwedd ar y brif lein rhwng Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

***CAM GWEITHREDU: GM i sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybod am faterion arwyddocaol lle mae diogelwch yn cael ei danseilio o bosibl.***

**b. Perfformiad diogelwch**

Cyflwynodd GM y Diweddariad ar Ddiogelwch. Cyfarfu'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant ar 18 Rhagfyr 2018, ac mae'n glir bod Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC yn dechrau deall gofynion data'r Bwrdd ar gyfer seilwaith iechyd, diogelwch a llesiant.

Cyfarfu TrC â'r RSSB ar 3 Rhagfyr a byddant yn cyfarfod eto ym mis Ionawr 2019 ynghyd â Seilwaith Diogelwch Gwasanaethau Rheilffyrdd i weithio tuag at gymeradwyo systemau rheoli diogelwch.

***CAM GWEITHREDU: GM a JP i gyfarfod cyn y cyfarfod gyda'r RSSB ym mis Ionawr.***

Cyflwynodd GM grynodeb o'r drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn ymwneud â diogelwch ar groesfannau, gan gynnwys data ar ddigwyddiadau. Dywedodd SH fod angen i ddata ar ddigwyddiadau ar groesfannau gynnwys data ar gyfer y 12 mis diwethaf at ddibenion meincnodi. O ganlyniad i'r gwaith gyda Network Rail i ddarparu rhagor o wybodaeth gyhoeddus am ddiogelwch ac am gau rhai croesfannau lle y gall diogelwch gael ei danseilio, penderfynwyd gwahodd Network Rail i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant er mwyn trafod addysg, cynlluniau hirdymor, cau croesfannau, a chymorth posibl gan TrC.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

***CAM GWEITHREDU: GM i ddarparu data'r 12 mis diwethaf yn ymwneud ag ystadegau diogelwch at ddibenion meincnodi.***

**4) Diweddariad strategol/datblygiad**

**a. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Amlinellodd JP y prif faterion yn ei adroddiad. Yn gyffredinol, mae TrC wedi gwneud cynnydd da dros y mis diwethaf: mae prosiectau seilwaith yn datblygu'n dda, ac mae nifer y trenau sy'n rhedeg wedi dychwelyd i'r lefelau arferol.

Gofynnodd JP i SH am sicrwydd na fyddai'r problemau a welwyd yn Hydref 2018 yn dychwelyd yn y dyfodol, pan fu'n rhaid canslo llawer o drenau. Dywedodd JP ei fod yn hyderus na fyddai'r un problemau'n dychwelyd dros weddill yr Hydref, cyn belled â'n bod yn osgoi unrhyw broblemau mawr o ran y tywydd.

Cafwyd diweddariad gan JP ynglŷn â chynnydd ar archebion cerbydau.

Holodd SH am ddigwyddiadau recriwtio diweddar. Nodwyd nad oedd yn glir bob amser yn ystod y digwyddiadau hyn bod yna wahaniaeth rhwng TrC a Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC, er bod y ddau sefydliad yn gweithredu o dan yr un brand. Roedd rhai aelodau'r Bwrdd yn pryderu nad oedd Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC wedi'u cynrychioli mewn digwyddiadau recriwtio yn ddiweddar.

Dywedodd JP fod cyfnod ymgynghori'r TWAO ar waredu asedau wedi cau. Mae cynllun wedi'i ddatblygu i baratoi am reoleiddio.

O safbwynt craffu, nododd JP fod ymddangosiad TrC gerbron Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Cynulliad fis diwethaf wedi cael croeso mawr. Hefyd, cyfarfu JP a HC ag Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru wythnos diwethaf.

Pwysleisiodd JP fod angen tryloywder ledled y busnes ac na fyddai neb yn cael eu cosbi am amlygu problemau.

**b. Is-bwyllgorau**

(i) **Archwilio a Risg.** Nododd HC fod y Pwyllgor Archwilio a Risg (PAR) wedi cynnal cyfarfod sefydlu ddechrau mis Rhagfyr. Mae'r broses wedi dechrau i recriwtio Cyfarwyddwr Anweithredol Cyllid a fydd yn cadeirio'r pwyllgor. Cytunodd NK ac SH i fynychu o leiaf un cyfarfod PAR y flwyddyn. Hefyd, pwysleisiodd NG fod angen nodi aelod annibynnol o PAR.

***CAM GWEITHREDU: HC i ddiweddaru'r Bwrdd ar benodi Cyfarwyddwr Anweithredol Cyllid.***

(ii) **Iechyd, Diogelwch a Llesiant.** Siaradodd NK am ail gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd 18 Rhagfyr 2018. Cafwyd cynrychiolaeth dda gan seilwaith, Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC a TrC. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar argaeledd data a'r angen am ddata cyson ledled brand TrC. Hefyd, trafodwyd croesfannau, yr angen am ddull gweithredu rhagweithiol ym maes diogelu, gan gynnwys ymyriadau cadarnhaol, a'r angen i nodi'r 10 prif risg yn glir.

(iii) **Cyfathrebu.** Hysbyswyd y Bwrdd gan SH y bydd y Siarter Cwsmeriaid yn ehangu i gynnwys Gwasanaethau Rheilffyrdd, ac y bydd yn siarter ar y cyd i'w rannu â Bwrdd Gweithredol TrC yn y flwyddyn newydd.

Trafododd y Bwrdd yr angen i Gyfarwyddwyr Anweithredol gyflwyno eitemau is-bwyllgorau i'r Bwrdd, gan gynnwys argymhellion, ceisiadau am gymeradwyaeth ac unrhyw gamau gweithredu eraill ar gyfer y Bwrdd.

Hefyd, cadarnhaodd y Bwrdd y bydd tîm Gweithredol TrC yn gyfrifol am benderfyniadau caffael, a bydd y Bwrdd ond yn gyfrifol am brosesau caffael risg uchel yn amodol ar drothwyon cytundebau rheoli.

**c. Cyllid**

Cyflwynodd HC y papur cyllid, a nododd fod y tîm cyllid yn canolbwyntio ar gynyddu ei ddealltwriaeth o brosesau a chywirdeb. Yn gyffredinol, mae cyllid yn dod yn fwy cyson â'r rhagolygon. Nododd HC fod ychydig o orwariant refeniw ar gyfer mis Tachwedd 2018 yn ymwneud â chyflwyno camau ond nad oes ganddo effaith alldro. Hefyd, mae yna danwariant cyfalaf sylweddol oherwydd oedi mewn hawliadau cerbydau gan Wasanaethau Rheilffyrdd.

Mae alldro ar gyfer 2018-19 yn dangos tanwariant cyfalaf o £6.1 miliwn a thanwariant refeniw o £0.5 miliwn. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu i ddefnyddio'r tanwariant cyfalaf. Pwysleisiodd NG yr angen i sicrhau bod y gwariant hwn yn ddiffuant trwy brosesau caffael arferol, gan osgoi defnydd amhriodol o gam gweithredu un tendr. Nododd hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru gymryd rhan yn y broses. Pwysleisiodd HC na fyddai TrC yn ymrwymo i wario'r £6.1 miliwn heb ymgynghori â Llywodraeth Cymru a gofyn am gymeradwyaeth Bwrdd TrC. Cytunodd y Bwrdd i ddilyn y broses hon.

***CAM GWEITHREDU: HC i gyflwyno cynnig i gyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr ar sut i wario'r tanwariant cyfalaf o £6.1 a gofyn am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.***

Mae'n bosibl y bydd angen i TrC drosglwyddo'r tanwariant refeniw i Lywodraeth Cymru. Mae TrC eisoes wedi dychwelyd tua £0.5 miliwn i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19. Pwysleisiodd HC yr angen i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael digon o rybudd ynglŷn â dychwelyd cyllid. Gofynnodd JP am sicrwydd bod cynlluniau gwario eraill yn cael eu hystyried fel rhan o'r drafodaeth â Llywodraeth Cymru.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

***CAM GWEITHREDU: HC a JP i drafod gyda Llywodraeth Cymru'r posibilrwydd o ddefnyddio'r tanwariant refeniw ar gyfer mentrau Gwasanaethau Rheilffyrdd.***

Holodd NG am niferoedd staff TrC. Cadarnhaodd HC y bydd 18 aelod o staff newydd yn cychwyn ym mis Ionawr / Chwefror, a 40 arall o bosibl cyn diwedd mis Mawrth. Mae nifer y staff sydd ar secondiad o Lywodraeth Cymru yn lleihau yn unol â'r angen i leihau unrhyw ganfyddiad nad yw TrC yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd HC na fydd Cyfrifon Rheoli ar gael ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr oherwydd dyddiad cynharach cyfarfod y Bwrdd – sy'n eithriad.

**d. Perfformiad/Cydymffurfiaeth â Llywodraethu**

Yn amodol ar fân newidiadau, cymeradwyodd y Bwrdd gopi drafft o Fframwaith Gweithredu'r Bwrdd sydd i'w gyhoeddi ar wefan TrC. Roedd aelodau'r Bwrdd yn ansicr a oeddent wedi llofnodi Cod Ymddygiad Llywodraeth Cymru ar gyfer Aelodau Bwrdd.

***CAM GWEITHREDU: JM i gadarnhau a yw aelodau'r Bwrdd wedi llofnodi Cod Ymddygiad Llywodraeth Cymru ar gyfer Aelodau Bwrdd.***

***CAM GWEITHREDU: JM i oruchwylio'r gwaith o gyhoeddi Fframwaith Gweithredu'r Bwrdd ar wefan TrC.***

**e. Cynllun Busnes**

Ymunodd GO â'r cyfarfod i hysbysu'r Bwrdd am gynlluniau i ddiweddaru'r cynllun busnes presennol yn unol â llythyr cylch gwaith diweddaraf Llywodraeth Cymru. Cyflwynir y cynllun busnes wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2019-20 i gyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror. Hefyd, cytunodd y Bwrdd i lunio cynllun busnes yn 2020 ar gyfer cyfnod 2020-22. Gofynnodd JP a oes angen i TrC gadw cronfeydd wrth gefn.

***CAM GWEITHREDU: JM i gadarnhau a oes angen i TrC gadw cronfeydd wrth gefn.***

**f. Materion Strategol ar gyfer Cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol**

Trafododd y Bwrdd yr angen i sicrhau bod gan TrC brosesau llywodraethu priodol i dderbyn unrhyw wasanaethau eraill posibl gan Lywodraeth Cymru.

**5) Unrhyw Fater Arall**

Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am gopi o ateb TrC i lythyr cwyn gan ddefnyddiwr gwasanaeth a dderbyniwyd ym mis Tachwedd 2018.

***CAM GWEITHREDU: JM i rannu copi o'r ateb i lythyr cwyn gan ddefnyddiwr gwasanaeth a dderbyniwyd ym mis Tachwedd 2018.***

Dywedodd NG, y Cadeirydd Dros Dro, mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf fel Cadeirydd gan fod Cadeirydd parhaol ar fin cael ei benodi. Cyhoeddir enw'r Cadeirydd parhaol yn y dyfodol agos. Pwysleisiodd NG fod llawer o gynnydd wedi'i wneud wrth ddatblygu TrC dros y 14 mis diwethaf, a diolchodd i'r Bwrdd am ei gynorthwyo gyda'i waith fel Cadeirydd. Diolchodd aelodau eraill y Bwrdd iddo am ei waith fel Cadeirydd. Dangosodd JP nodyn gan Lywodraeth Cymru yn diolch yn ffurfiol i NG am ei waith fel Cadeirydd.

**Rhan C: Sesiwn diweddaru gweithredol**

Ymunodd GO, GM, AC a KG â'r cyfarfod

**a. Cynllun a Strategaeth Archwilio**

Cyflwynodd HC y cynllun Archwilio Mewnol. Bydd archwilydd mewnol rhan-amser arall yn cychwyn yn gynnar yn 2019. Bydd yr archwilydd yn cael ei gyflogi gan Lywodraeth Cymru hefyd, ac mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth wedi'i gytuno i sicrhau na fydd canfyddiadau TrC yn cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru ac y bydd yr archwilydd mewnol yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau. Nodwyd y cynllun Archwilio Mewnol gan y Bwrdd a thrafodwyd meysydd posibl eraill ar gyfer archwilio mewnol.

**b. Cynnydd yn erbyn cerrig milltir**

Cyflwynodd GO adnodd Olrhain Cerrig Milltir Rhaglenni, a thrafodwyd adnoddau olrhain gwahanol.

***CAM GWEITHREDU: GO i sicrhau bod ychwanegiadau newydd i'r adnodd olrhain cerrig milltir yn cael eu nodi'n glir.***

***CAM GWEITHREDU: GO i lunio cynllun yn ymwneud â'r adnoddau olrhain y mae angen i'r Bwrdd eu hadolygu.***

Gofynnodd JP a oes sicrwydd ynglŷn â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cwmpas achos busnes Trosglwyddo Asedau.

***CAM GWEITHREDU: AC i gadarnhau disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cwmpas achos busnes Trosglwyddo Asedau.***

Gofynnodd NG a oes angen i'r Bwrdd fod yn ymwybodol o effaith bosibl amserlen newydd Rhagfyr 2018. Dywedodd JP fod y newidiadau'n fach iawn ac na fyddent yn cael effaith ar gerbydau. Fodd bynnag, gofynnodd aelodau'r Bwrdd am bapur i gymeradwyo newidiadau i'r amserlen yn y dyfodol , gan nodi'r effaith ar gwsmeriaid, cerbydau ac unrhyw effaith arall a all arwain at beryglon.

***CAM GWEITHREDU: AC i ddarparu papur ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2019 yn ymwneud ag effaith y newidiadau arfaethedig i'r amserlen.***

**c. Risgiau a chamau lliniaru allweddol**

Cyflwynodd GO y cofrestri risgiau a phwysleisiodd fod angen canolbwyntio ar weddnewid y gofrestr risgiau sy'n canolbwyntio ar agwedd TrC at risgiau a chategoreiddio risgiau. Trafodwyd risgiau strategol a risgiau hirdymor gwahanol sydd angen eu hychwanegu at y gofrestr risgiau. Pwysleisiodd NG mai risgiau corfforaethol/strategol yw blaenoriaeth y Bwrdd, a bod risgiau gweithredol yn llai o flaenoriaeth, e.e. risgiau a fydd yn atal y busnes rhag gweithredu / peidio â rhedeg trenau, neu risgiau a all gael effaith sylweddol ar enw da TrC. Pwysleisiodd JP fod angen datblygu cynlluniau i liniaru risgiau.

| |
|---|
| ***CAM GWEITHREDU: DOL i sicrhau bod y gofrestr risgiau yn cael ei diweddaru i adlewyrchu risgiau mwy strategol a chategoreiddio risgiau.*** |

**d. Diweddariad ar lety**

Cafwyd diweddariad llafar gan GO yn ymwneud â phrosiect llety Pontypridd cyn penderfyniad y Bwrdd ym mis Ionawr ynglŷn â sut i reoli diwyg yr adeilad newydd.

| |
|---|
| ***CAM GWEITHREDU: GO i sicrhau bod y gofrestr risgiau berthnasol yn ystyried beth fydd yn digwydd os nad yw'r prosiect llety yn cael ei gwblhau yn brydlon.*** |

**e. Diweddariad ar gerbydau**

Cafwyd diweddariad ar gerbydau gan JP. Gofynnodd SH am yr hyn y mae TrC wedi'i ddysgu yn dilyn problemau'r Hydref yn ymwneud â mannau gwastad ac olwynion. Amlinellodd JP ddau brif faes dysgu:

1. rheoli problemau yn ymwneud â mannau gwastad, gan gynnwys cyfraniad arbenigwyr allanol;
2. bod y problemau wedi codi ar yr un pryd â dail yn disgyn.

Dywedodd JP fod cerbydau gwahanol yn debygol o fod ar gael ym mis Ebrill 2019. Gofynnodd NG a yw TrC yn gallu modelu'r dull gorau o wneud gwaith cynnal a chadw er mwyn sicrhau bod cynifer o drenau â phosibl yn rhedeg yn hytrach na chyflwyno unedau newydd.

| |
|---|
| ***CAM GWEITHREDU: AC i hysbysu'r Bwrdd am unrhyw waith modelu sydd wedi'i gwblhau yn ymwneud ag argaeledd a'r dull gorau o wneud gwaith cynnal a chadw, er mwyn sicrhau bod cynifer o drenau â phosibl yn rhedeg yn hytrach na chyflwyno unedau newydd.*** |

**f. Gwaredu Asedau CVL**

Cyflwynodd AC bapur diweddaru yn ymwneud â gwaredu asedau CVL, gan nodi bod y gwaith yn debygol o gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2019 yn unol â'r amserlen. Nododd y Bwrdd y papur ac mae'n aros am yr achos busnes i'w gymeradwyo ym mis Chwefror 2019.

Hefyd, cyflwynodd AC bapur ar Strategaeth Trosglwyddo Pobl Gwaredu Asedau CVL. Er mwyn cydymffurfio â'r ymrwymiadau a wnaed gan y Prif Weinidog i roi dewis i staff sy'n trosglwyddo o Network Rail barhau i gael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus, mae TrC yn ystyried datblygu model i ganiatáu hyn tra bod y staff dan sylw yn gweithio i Wasanaethau Rheilffyrdd TrC o ddydd i ddydd. Dywedodd NG fod llywodraeth leol a'r GIG eisoes wedi hwyluso prosesau tebyg o drosglwyddo staff. Holodd NK am y trefniadau ar gyfer trosglwyddo cofnodion meddygol wrth drosglwyddo staff, o safbwynt sicrhau caniatâd a'r broses ymarferol. Cytunwyd bod angen archwilio i'r mater hwn.

Nododd y Bwrdd y papur, a thrafodwyd rhai o'r risgiau a'r problemau, fel trosglwyddo data.

***CAM GWEITHREDU: AC i ymchwilio i'r sefyllfa o ran trosglwyddo cofnodion meddygol o Network Rail.***

***CAM GWEITHREDU: AC i ymgynghori â chynrychiolwyr o lywodraeth leol a'r GIG ar drosglwyddo staff mewn sefyllfaoedd tebyg i waredu asedau CVL.***

Trafodwyd amseriad trosglwyddo'r ased ychydig cyn yr Hydref a'r angen i ystyried hyn yn ofalus a lliniaru unrhyw risgiau yn briodol.

***Cam Gweithredu: AC/JP i ystyried y mater ac adrodd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror.***

**g. Rhaglen Gynefino'r Bwrdd ar gyfer Teithiau o'r Rheilffyrdd a Theithiau Diogelwch**

Cyflwynodd AC bapur yn cynnig bod holl staff TrC yn cymryd rhan mewn diwrnod ymarferol i flasu agweddau amrywiol ar weithrediadau Gwasanaethau Rheilffyrdd. Cytunodd y Bwrdd i dderbyn y rhaglen ar yr amod bod cynllun peilot yn cael ei gyflwyno yn y lle cyntaf a bod y rhaglen ar gael ledled Cymru.

Hefyd, cyflwynodd AC bapur yn amlinellu cynlluniau i Gyfarwyddwyr a'r Tîm Gweithredol fynychu Teithiau Diogelwch. Cytunodd y Bwrdd â'r cynnig hwn.

**h. Cyfathrebu**

Cyflwynodd JP ddiweddariad ar gyfathrebu i'w nodi gan y Bwrdd. Trafododd y Bwrdd gynigion yn ymwneud â chyfathrebu â chwsmeriaid yn dilyn y problemau gyda gwasanaethau yn yr Hydref. Roedd SH yn awyddus i ddiolch yn ffurfiol i'r tîm cyfathrebu am ei waith yn ystod y cyfnod anodd hwn.

**i. Unrhyw fater arall**

Dywedodd NG, y Cadeirydd Dros Dro, mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf fel Cadeirydd gan fod Cadeirydd parhaol ar fin cael ei benodi.

Dymunodd NG Nadolig Llawen a 2019 lwyddiannus i bawb, gan ddiolch iddynt am eu gwaith, eu hamser a'u hegni yn 2018.

Hefyd, diolchodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol i'w timau am eu gwaith, eu hamser a'u hegni yn 2018.